

SUT MAE ANAWSTERAU BWYTA, YFED A LLYNCU YN EFFEITHIO AR BLANT?

Babanod, plant a phobl ifanc gydag anabledd sy'n dechrau mewn plentyndod a'r rhai a gafodd eu geni cyn eu hamser sydd mwyaf tebygol o brofi dysffagia. Fodd bynnag, mae anawsterau bwydo hefyd yn digwydd mewn plant sy'n datblygu'n arferol.

Pa broblemau mae anawsterau bwyta, yfed a llyncu yn arwain atynt mewn babanod, plant a phobl ifanc?

- Problemau gyda datblygu sgiliau bwydo
- Problemau ymddygiad yn gysylltiedig gyda bwyta, yfed ac amseroedd bwyd
- Gallant achosi haint ar y frest, niwmonia, tagu, dihydradu, colli pwysau a diffyg maeth

Sut y gall therapyddion lleferydd ac iaith helpu?

- Asesu ac adnabod achosion posibl o anawsterau bwyta, yfed a llyncu
- Darparu asesiadau amseroedd bwyd
- Atgyfeirio plant at fideofflwrosgopi, manometreg neu FEES (flexible endoscopic evaluation of swallowing)
- Argymhell newidiadau i offer bwydo, i ansawdd bwyd neu ddiod, i ystum bwydo neu wahanol ymyriadau.

**MAE MWY O WYBODAETH
AR GAEL YN
RCSLT.ORG/DYSPHAGIA**

#SWALLOWAWARE2026